# Canllaw ar Gofrestrau Asedau Gwybodaeth

## Beth yw Cofrestr Asedau Gwybodaeth?

Mae Cofrestr Asedau gwybodaeth, a elwir hefyd yn 'adolygiad gwybodaeth' yn ffordd o'ch helpu i ddeall a rheoli asedau gwybodaeth eich sefydliad a'u trefnu.
Yn syml, mae'n rhestr o asedau gwybodaeth a systemau a ddelir gan sefydliad, er enghraifft, gallai fod yn set ddata, yn system rheoli gwybodaeth neu'n gofnod.

Mae’n allweddol deall pa wybodaeth sy'n cael ei chasglu a'i chadw er mwyn ei diogelu’n llawn a chydymffurfio â deddfwriaeth.

## Diben cofrestr asedau gwybodaeth

Gellir defnyddio Cofrestrau Asedau Gwybodaeth ar gyfer llawer o amcanion:
Cynllunio gweithredu ymarferion diogelu gwybodaeth effeithiol ar gyfer yr holl asedau gwybodaeth mewn sefydliad;

Nodi systemau hollbwysig ar gyfer adfer yn dilyn trychineb a pharhad busnes;

O ran dadansoddi risg- Gall Cofrestr Asedau nodi lle mae diffyg defnydd o’r wybodaeth neu feysydd lle ceir data annigonol, anghywir neu annibynadwy sy’n amlygu unrhyw risgiau sy’n gysylltiedig â’n ffordd o weithio.

Nodi blaenoriaethau strategaeth rheoli gwybodaeth.

Gall Cofrestr Asedau wella dealltwriaeth o anghenion gwybodaeth ysgol.  Mae hyn yn cynnwys nodi pa wybodaeth a ddelir, a grëir neu a ddefnyddir, y sawl sy’n ei defnyddio, pa mor effeithiol y mae’n ateb eu hanghenion, am ba hyd y mae’n ddefnyddiol a phwy sy’n gyfrifol dros sicrhau bod yr asedau gwybodaeth yn aros yn addas at y diben.

## Enghreifftiau o gofrestr asedau

- Mae cronfa ddata o gontractau yn enghraifft glir o un ased gwybodaeth. Nid oes angen i bob cofnod yn y gronfa ddata gael ei drin yn unigol.
- Mae pob ffeil yn gysylltiedig â phrosiect penodol

# Canllaw ar Gofrestrau Asedau Gwybodaeth

## Sut i fynd ati i lunio Cofrestr Asedau

Mae nifer o ddosbarthiadau gwahanol a all helpu i gategoreiddio'r asedau gwybodaeth mae'r ysgol yn eu cadw a rhai nad yw'n eu cadw.

- **SYSTEMAU ELECTRONIG**
- **GWYBODAETH AR BAPUR**
- **CYFRYNGAU SYMUDOL**
- **CALEDWEDD**

Dylai uwch aelod o staff gwblhau'r Gofrestr Asedau Gwybodaeth; fodd bynnag, mae'n debyg y bydd angen rhywfaint o gymorth neu ganllaw ar y person hwn gan bobl eraill yn yr ysgol er mwyn canfod pa wybodaeth a gedwir o bob un o'r pedwar categori a restrir uchod.

Os oes gennych ymholiadau ynghylch cwblhau'r Gofrestr Asedau neu am y Rheoliadau/Diogelu Data yn gyffredinol, cysylltwch â Swyddfa Llywodraethu Gwybodaeth Ysgolion gan ddefnyddio'r cyfeiriad isod: rheoligwybodaethysgolion@caerdydd.gov.uk**Gallwch hefyd ddod o hyd i dempled ar gyfer y gofrestr asedau ar wefan CLG ar-lein.**